Canllawiau'r Eglwys yng Nghymru

Pwnc: Canllawiau ar Coronavirus (Covid-19)
Dyddiad: Chwefror 2020

## Gweddi

Gweddïwn dros y rhai sydd wedi'u heintio â'r coronavirus newydd, (a elwir yn Covid-19 erbyn hyn gan Sefydliad Iechyd y Byd), yn Tsieina ac ar hyd a lled y byd, y rhai sy'n gofalu amdanynt, arbenigwyr iechyd ac awdurdodau sy'n ymdrechu mor galed i rwystro'r haint rhag ymledu, ac wrth gwrs unrhyw un arall sydd, ar hyn o bryd, yn teimlo'n bryderus, yn enwedig y rhai sydd â chyfeillion a theulu yn Tsieina.

## Coronavirus (Covid-19)

Mae Sefydliad Iechyd y Byd wedi datgan bod hwn yn argyfwng iechyd cyhoeddus o bryder rhyngwladol. Mae hyn yn sicrhau y gellir targedu adnoddau mewn gwledydd y mae eu seilwaith iechyd cyhoeddus yn fregus iawn. Mae'r risg i'r cyhoedd yn y DU wedi'i osod ar lefel cymedrol ar hyn o bryd, ac ar lefel ISEL i unigolion. Mae hyn yn sicrhau y gall y llywodraeth gynllunio ar gyfer pob posibilrwydd. Mae nifer yr achosion yn y DU yn fach iawn ac mae gwaith paratoi da iawn ar waith.

Mae'r rhan fwyaf o bobl yn gwella o'r salwch wedi iddynt gael symptomau annwyd trwm / ffliw am 6 - 8 diwrnod, ond nid y ffliw yw Covid-19 ac nid oes brechlyn ar gael. Deallir erbyn hyn bod cyfraddau marwolaeth yn llawer is nag a ragwelwyd - ar y cychwyn dim ond yr achosion difrifol a oedd yn cael eu hadrodd, ac nid y rhai a oedd yn ymddangos fel ffliw yn unig. Mae marwolaethau'n fwy tebygol o ddigwydd pan fo yna gyflwr arall yn bodoli eisoes.
Cyhoeddir cyngor iechyd cyhoeddus yn https://www.gov.uk/guidance/wuhan-novel-coronavirus-information-for-the-public?utm_source=7399ccdc-5d7d-431f-9f69-08a990ebb8f2&utm_medium=email&utm_campaign=govuk-notifications&utm_content=immediate

Mae'r papur hwn yn cynnig cyngor i eglwysi. Nid oes risg uniongyrchol ac nid oes angen gweithredu, ond mae'n gam doeth paratoi am yr hyn yr ydym yn gobeithio ac yn disgwyl na fydd yn digwydd.

## Y cam nesaf

Os oes rhywun yn sâl, ffoniwch 111 neu Galw Iechyd Cymru ar 0845 46 47. Ni ddylai neb ddal ati os ydynt yn sâl. Bydd hyn yn rhwystro'r afiechyd rhag ymledu. Gofynnir i'r rhai yr asesir eu

bod mewn risg (sydd ar hyn o bryd yn golygu'r rhai sydd wedi dychwelyd o nifer o wledydd yn y Dwyrain Pell yn ystod y 14 diwrnod diwethaf) ynysu eu hunain gartref tra cynhelir profion.

Cadwch olwg allan am y newyddion diweddaraf o ffynonellau swyddogol, nid y pryderon dwysach sydd i'w gweld weithiau ar y cyfryngau.

## Ymweld

Dylai unigolion sy'n gwneud ymweliadau bugeiliol i gartrefi ac ysbytai ddilyn yr holl fesurau diogelwch o ran hylendid personol cyn ac ar ôl ymweliadau o'r fath.

## Cymun Bendigaid

Er bod ein ffydd yn golygu bod sacramentau'n gyfrwng gras ac nid salwch, maen nhw'n cael eu gweinyddu'n gorfforol, felly dylem gymryd gofal yn gorfforol. Yn ogystal â'r pryder penodol am y Coronavirus, mae'r cyngor hwn yn berthnasol yn gyffredinol i bob afiechyd heintus.

1. **Golchwch eich Dwylo**. Mae Offeiriaid sy'n llywyddu mewn gwasanaeth y Cymun Sanctaidd, gweinyddwyr a gweinyddion Cymun yn cael eu hatgoffa i olchi eu dwylo. Rydym yn eich cynghori'n gryf i ddefnyddio glanweithydd dwylo yn syth cyn Paratoi'r Bwrdd a'r Weddi Ewcharistaidd.

2. **Peidiwch â gwlychu (rhoi'r bara yn y gwin) a pheidiwch â chaniatáu hynny o gwbl**. Oherwydd bod y dwylo'n gymaint o ffynhonnell o bathogenau â'r wefus, nid yw gwlychu'n fwy diogel nag yfed a gall fod yn ffordd o gyflwyno germau i'r gwpan. Gall gwlychu fygwth y rhai sydd â chyflyrau imiwnedd neu alergedd penodol hefyd. Er enghraifft, gall y rhai sydd ag anoddefiad i glwten, lle gall mymryn o glwten fod yn beryglus, fod mewn mwy o risg pan fo cymunwyr eraill wedi gwlychu bara eu cymun yn y gwin.

3. **Gofynnwch i'ch cynulleidfa ystyried derbyn y bara neu'r gwin yn unig**. Yn ôl dysgeidiaeth Anglicanaidd, mae derbyn y sacrament of fara yn unig yn golygu derbyn y sacrament yn ei gyfanrwydd. Dylai'r llywydd bob amser dderbyn o'r Cwpan. Os yw cymunwr yn teimlo'n sâl neu ddim am yfed o'r cwpan, yna dylai ef neu hi dderbyn y bara cysegredig yn unig. *Ar y pwynt hwn, nid oes angen rhoi'r gorau i gynnig y cwpan i'r gynulleidfa.*

4. **Rhowch ganllawiau ar Rannu'r Heddwch. *Ar y pwynt hwn, nid oes angen rhoi'r gorau i rannu'r Heddwch*.** O bosibl bydd angen cyflwyno cyngor pellach petai'r feirws yn ymledu'n eang yn y DU. Fodd bynnag, wrth gyfnewid Heddwch, rydym yn mynegi ein dymuniad i ddod i'r bwrdd sanctaidd fel cymuned sydd wedi cymodi i Dduw a'n gilydd drwy waith Crist, a gerbron y bwrdd mae'r aelodau 'mewn cariad a chyfeillgarwch' gyda'n cymdogion. Er ei bod yn arferol mewn sawl eglwys, <u>nid</u> yw ysgwyd llaw neu unrhyw fath arall o gyffwrdd corfforol arall yn ofynnol ar y pwynt hwn ac, os yw pobl

yn bryderus am y rhain, mae’n ddigon i ddatgan ‘tangnefedd i chwi’ yn syml, gan wneud cyswllt llygaid os oes modd.

Addaswyd o’r canllawiau a gyhoeddodd Esgobaeth Llundain, gyda diolch.
Mainc yr Esgobion, Chwefror 2020.